# ‘Grant i Blant’
# Cynllun grantiau bach Coram PACEY Cymru yng Nghymru
# Telerau ac Amodau

## 1. Cymhwyster

### 1.1 Cymhwyster aelodaeth

Aelodau Coram PACEY sy'n ymuno â neu'n adnewyddu'r mathau canlynol o aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027.

- Aelodau Ymarferwr neu Ymarferwr +
- Aelodau Rheolwr neu Rheolwr +

### 1.2. Aelodaethau anghymwys

**Nid** yw'r canlynol yn gymwys ar gyfer grant bach

- Cynorthwyydd Ymarferydd (hy cynorthwywyr gwarchodwr plant a gweithwyr meithrinfa)
- Ymarferwr Nani neu aelodau Ymarferwr + nad ydynt ar gynllun cymeradwyo AGC
- Aelodau Dysgwyr Coram PACEY
- Aelodau Partner Ansawdd

### 1.3 Eitemau cymwys

Nod y grant yw cefnogi aelodau cymwys Coram PACEY i ddarparu gweithgareddau a phrofiadau i’r plant yn eu gofal na ellir eu cyrchu trwy gyllid grant arall megis grantiau cyfalaf bach neu gynaliadwyedd awdurdodau lleol. Mae angen i ni sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu cyllid ar gael o ffynonellau eraill.

Ystyrir ceisiadau am yr eitemau canlynol:

- Cost mynediad i leoliadau cymunedol ac atyniadau gan gynnwys parciau gwledig, sŵau, parciau fferm, cestyll, chwarae meddal, sinema, theatrau, canolfannau gweithgareddau a chwaraeon.
- Bydd tocynnau blynyddol neu aelodaeth i leoliadau ac atyniadau hefyd yn cael eu hystyried.

Sylwer ar gyfer aelodau Nani Ymarferydd neu Ymarferydd + ar gynllun cymeradwyo AGC dim ond tuag at eu cost flynyddol o gymeradwyaeth AGC y gellir defnyddio’r grant.

### 1.4 Eitemau anghymwys

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol, fodd bynnag ni fydd costau sy’n ymwneud â’r canlynol yn cael eu hariannu:

- Ni chaiff eitemau y gellir gwneud cais amdanynt drwy'r rhaglen gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar: cynllun grantiau bach eu hariannu. Bydd angen i chi wneud cais i'ch awdurdod lleol mewn perthynas â'r rhain.
- Ni ellir ei ariannu deunyddiau i gefnogi gweithgareddau a phrofiadau plant yn y lleoliad eleni, o ystyried ffocws y grant.
- Bwyd a diod
- Ffioedd mynediad i ffrindiau a theulu nad ydynt yn gweithio yn y gwasanaeth gofal plant
- Ffioedd mynediad i blant nad ydynt yn derbyn gofal fel rhan o'r gwasanaeth gofal plant cofrestredig
- Costau cysylltiedig â theithio.

**2. Ceisiadau**

Rhaid i aelodau Coram PACEY cymwys sy'n adnewyddu neu'n ymuno â Coram PACEY rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027 gwblhau'r ffurflen gais grant ar Survey Monkey i ymgeisio.

Dylid cwblhau pob rhan o'r ffurflen gais gan ddarparu gwybodaeth a chostau clir.

Ni fydd unrhyw gostau cyn cytuno ar y cais yn cael eu derbyn.

Ar dderbyn eich cais bydd Coram PACEY Cymru yn gwirio ei fod yn gyflawn ac yn bodloni meini prawf cymhwysedd y cytunwyd arnynt. Byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib gydag unrhyw ymholiadau ar y cam hwn.

Bydd ceisiadau yn cael eu prosesu trwy banel grantiau Coram PACEY Cymru a bydd aelodau yn cael gwybod am y canlyniad o fewn 28 diwrnod.

Rhaid i aelodau gadarnhau derbyniad o'r grant drwy e-bost a darparu'ch manylion banc er mwyn derbyn y cyllid.

Os bydd angen i aelodau wneud newidiadau yn dilyn cymeradwyaeth bydd angen cytuno ar y rhain gyda Coram PACEY Cymru cyn mynd i gostau.

Rhaid i ymgeiswyr ddatgan y byddant yn cadw cofrestriad AGC/cymeradwyaeth nani ac yn darparu gwasanaeth yn weithredol i blant a'u teuluoedd am o leiaf 12 mis o ddyddiad eu cais.

Rhaid i ymgeiswyr ddatgan nad yw eu cais yn dyblygu unrhyw gyllid nac incwm arall y mae'r gwasanaeth yn ei dderbyn.

**3. Taliadau**

Unwaith y bydd grant wedi'i gymeradwyo a derbyniad y grant wedi'i dderbyn, bydd Coram PACEY Cymru yn gwneud taliad BACS o fewn 28

diwrnod i'r manylion cyfrif banc a ddarparwyd gan yr aelod yn ei e-bost derbyn.

**4. Monitro a gwerthuso**

Bydd angen i aelodau gadw'r holl dderbynebau sy'n gysylltiedig â'r cais am grant am gyfnod o 12 mis. Gallai Coram PACEY Cymru ofyn am y rhain at ddibenion archwilio a bydd angen iddynt fod ar gael ar gais.

Gallai Coram PACEY Cymru gysylltu â chi i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu astudiaethau achos a thystiolaeth ynghylch y defnydd o gyllid a sut mae hyn wedi bod o fudd i'ch gwasanaeth a'r plant yn eich gofal.

**Cysylltwch â Coram PACEY Cymru gydag unrhyw ymholiadau**
E-bost: cymru@corampacey.org.uk
Ffôn: 02920 351407